167

# CAN Dduwiol,

A GYMMERWYD ALLAN O'R

*DRYCH CRIST'NOGOL;*

Yn rhoddi gwir ac union

## HANES,

FEL Y BU

Hen Wr duwiol, tan Lwyn o Goed,

YN GWRANDO

PERAIDD FIWSIC ANGEL

DROS

DRI CHANT O FLYNYDDOEDD.

Lle gosodir allan

Annogaeth i bawb i foliannu'r ARGLWYDD yn y Byd hwn o Brofiad, mewn Gobaith o gael ei fwynhau dros Dragywyddoldeb.

---

CAERFYRDDIN,

ARGRAFFWYD GAN I. DANIEL,

YN HEOL Y BRENIN,

Lle yr argreffir pob Math o Gopiau am Bris tra rhesymol—ac y gellir cael ar werth *Gorfoledd ym Mhebyll Sion*, neu Hymnau Efangylaidd, o Gyfansoddiad *Dafydd William*. Pris 4c. Elw cymhedrol i'r neb a bryno Nifer ynghyd.

X2052

# CAN DDUWIOL, &c.

1 DYMA 'stori wych i'w chofio,
I'r sawl sydd ag ewyllys ganddo,
I foliannu Duw yn ffyddlon,
Mae yn ddiddanwch mawr i'r galon.

2 Hen ŵr oedd yn byw mewn crefydd,
Ac yn gweddio'n ddyfal beunydd;
Yn ei weddi'r oedd deisyfiad,
Am gael un rhodd cyn ei fadawiad.

3 Cael gwybod un o'r gwyrthiau lleia',
Yn y wlad lle'r oedd ei drigfa,
Fel y byddai'n fwy 'wyllysgar,
I Dduw, tra byddai ar y ddaear.

4 Ar forau teg fe aeth i rodio,
I lwyn o goed oedd agos atto;
Ym mrig y pren fe glywai'n canu,
Lais aderyn i'w lonychu.

5 'Roedd e'n hen—fe glywsai lawer,
O amryw gerdd ar dannau croyw-ber;
Ac erioed ni wyddai glywed
Peraidd fiwsic cyn felused.

6 Pan glybu ef mor fwyn a hynny,
Nesau wnaeth lle'r oedd e'n canu,
Dan y pren i gael ei wrando,
Ac yno bu ne's tewi o hono.

7 A phan y tawodd, fel na chlywai
Ef yr eilwaith, fe feddyliai
Am droi'n ol i fyn'd tu ag adre',
Yn ŵr hy, i'r tŷ lle buasai.

8 Ar y ffordd 'roedd yn myfyrio,
Pa hyd y buasai yno'n gwrando;
Dwy awr neu bedair fe debygsai,
Mwy o amser ni suasai.

9 A phan ddaeth i olwg cartre',
Rhyw ryfeddod fawr a welai!
Y teiau oedd, a'r cloddiau'n ddiball,
Wedi newid mewn modd arall.

10 Myn'd i'r tŷ dan synn feddylio,
Pobl ddieithr ydoedd yno;
Nid oedd un-dyn a adwaenai,
Ni wyddent hwy pwy ydoedd ynte'.

11 Dyma helynt sydd ryfeddol!
O Arglwydd Dduw! ble'r aeth fy mhobl?
Heddyw myned o'm tŷ allan,
A'r fath gyfnewid yma 'rwan!

12 Mae'r un teulu yma'n trigo,
Er's blynyddoedd heb newidio;
Dieithr yw'ch rheswm, ni's gwyr un-dyn
Am bwy'r ydych yn ymofyn.

13 Dywedai hen ŵr llwyd o'r cornel,
Gan fy nhad mi glywais chwedl,
A chan ei dad y clywsai ynte',
Ac ar eu hol mi cofiais innau;

14 Fyn'd hen ŵr o'r tŷ hwn allan,
Yr un enw a'r un oedran,
Ac na welwyd mono eilwaith,
Nac am dano ddim gwybodaeth.

15 Erbyn casglu llyfrau a'u chwilio,
Yr oedd blynyddoedd wedi passo,
O dri chant a deg a deugain,
Tra fu e'n gwrando'r fiwsic lawen.

16 Dyna helynt wych ryfeddol,
Gan un angel o wlad nefol;
Pa faint mwy yw clywed miloedd
Yn cyd-ganu yn y nefoedd!

17 Gwybu'r hen-wr wedi hynny,
Mai angel Duw fu iddo'n canu,
Ac a draethodd iddynt hwythau
Y gwirionedd fel y bu'ſai.

18 Erbyn darfod iddo dd'wedyd
Y modd y cawſai'r rhoddiad hyfryd,
Nid oedd ei ſylwedd yn ei ſulw,
Ond un dyrnaid bach o ludw.

19 Ni chlybu cluſt, ni chanfu llygad,
Ni's gŵyr un-dyn byw ag aned,
Faint llawenydd ſydd i fynu,
Fwy-fwy beunydd heb ddibennu.

20 Nid oes un-dyn a all wybod,
Na darllenydd na myfyrdod;
Ni fedrodd Paul, nac Awſtin hefyd,
Gyffelybu'r ſath lawen-fyd.

21 Pwy na charai Griſt yn ffyddlon,
O bur 'wyllys gwraidd ei galon,
Am gael myn'd i'r ſath lawenydd,
Ac aros ynddo yn dragywydd?

22 Dyma 'ſtori a ddarllenais,
O lyfr print Cymraeg a welais,
Ac a rois y geiriau hynny
Ar lun Cân i bawb i'w dyſgu.

TERFYN.